

PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd trwy gyswllt fideo, Dydd Llun, 26 Gorffennaf 2021 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Brian Blakeley, Alan Hughes, Tina Jones, Merfyn Parry, Peter Scott, Graham Timms (Is-Gadeirydd), Cheryl Williams a Huw Williams (Cadeirydd).

Yn bresennol ar wahoddiad y Pwyllgor roedd:

Aelodau Cabinet: Y Cynghorydd Hugh Evans (Arweinydd y Cyngor), y Cynghorydd Mark Young (Aelod Arweiniol dros Gynllunio, Diogleu'r Cyhoedd a Chymunedau Diogelach).

Aelodau'r Grŵp Tasg a Gorffen: Y Cynghorwyr Martyn Holland, Hugh Carson Irving, Barry Mellor (Cadeirydd). [Roedd y Cynghorwyr Peter Scott (Is-Gadeirydd) ac Alan Hughes ill dau yn aelodau o'r Pwyllgor].

Arsylwr: Y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies

HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth y Gwasanaeth Cyfriethiol, AD a Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Monitro (GW), Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad (EGJ), Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai (AL), Rheolwr Prosiect (KW), Cydlynnydd Craffu (RhE) a'r Gweinyddwr Pwyllgor (KE a SJ).

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Graham Boase, Cyfarwyddwr Corfforaethol: yr Economi a'r Parth Cyhoeddus.

2 DATGAN CYSYLLTIADAU

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau a oedd yn peri rhagfarn.

3 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Nid oedd unrhyw faterion bryn wedi eu codi gyda'r Cadeirydd cyn y cyfarfod.

4 ASESIAID LLETY SIPSIWN A THEITHWYR - ADRODDIAD GAN Y GRŴP TASG A GORFFEN

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Barry Mellor, Cadeirydd Grŵp Tasg a Gorffen yr Aseiad Llety Sipsiwn a Theithwyr, ac aelodau eraill y Grŵp i'r cyfarfod.

Ar ran y Grŵp Tasg a Gorffen, cyflwynodd y Cynghorydd Mellor yr adroddiad (a rannwyd ymlaen llaw) i aelodau'r Pwyllgor. Wrth ei gyflwyno, dywedodd y

Cynghorydd Mellor bod rhwymedigaeth gyfreithiol ar awdurdodau lleol, dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, i gynnal Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr bob pum mlynedd o leiaf. Roedd hefyd angen Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr cyfredol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) newydd ac roedd angen i'r Cyngor gyflwyno Asesiad wedi'i gymeradwyo i LIC erbyn 24 Chwefror 2022. Atgoffodd y Pwyllgor fod y Pwyllgorau Craffu yn y blynyddoedd diweddar wedi gofyn am ymgynghori â chynghorwyr a Phwyllgorau Craffu'r Cyngor ar gamau cynnar datblygu Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr i geisio ymgysylltu â'r holl fudd-ddeiliaid yn amserol ac yn effeithiol, yn enwedig aelodau o gymuned Sipsiwn a Theithwyr.

Er nad oedd yn ofynnol dan ganllawiau statudol Llywodraeth Cymru, 'Cynnal Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr', roedd yr Awdurdod wedi penderfynu y byddai'n ddoeth dilyn trywydd rheoli prosiect er mwyn cyflawni'r Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr yn unol â'r fethodoleg a oedd yn y canllawiau. Yn unol â'r trywydd hwn, sefydlwyd Bwrdd Prosiect, yn cynnwys Arweinydd y Cyngor ac Aelod Arweiniol Cynllunio, Diogelu'r Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel, ynghyd ag uwch swyddogion eraill y Cyngor, i reoli sut roedd y prosiect yn cael ei gyflawni, cael gafael ar yr adnoddau angenrheidiol i'w gyflawni a llunio cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu mewn perthynas â'r gwaith oedd yn cael ei wneud. Roedd y Bwrdd Prosiect yn teimlo y byddai'n allweddol i'r broses fod yn agored a thryloyw o'r cychwyn cyntaf, a dyna pam y gofynnwyd bod y Pwyllgor Craffu Cymunedau'n sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen i gefnogi a chyfrannu gwybodaeth i ddatblygu'r Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr a sicrhau bod y gwaith o'i ddatblygu'n cydymffurfio â holl agweddau canllawiau LIC ac yn ystyried sylwadau aelodau etholedig. Fel mae'r adroddiad a'r atodiadau cysylltiedig yn ei nodi, fe wnaeth y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn ei gyfarfod ym mis Mai 2021 gefnogi'r cynnig i sefydlu grŵp tasg a gorffen at y diben hwn ac, wrth geisio sicrhau bod mewnbyn o bob rhan o'r sir yn y broses, gofynnodd i bob un o Grwpiau Ardal yr Aelodau benodi cynrychiolydd i fod ar y Grŵp Tasg a Gorffen. Roedd copi o gylch gorchwyl y Grŵp Tasg a Gorffen ynghlwm yn Atodiad 1.

Fe amlinellodd y Cynghorydd Mellor y gwaith roedd y Grŵp wedi'i wneud hyd yma, fel yr oedd atodiadau 1 a 2 yn ei nodi. Pwysleisiodd fod y Grŵp wedi cytuno i wneud y gwaith mewn dau gam. Roedd y cam cyntaf yn golygu bod angen i'r grŵp ddeall methodoleg Llywodraeth Cymru er mwyn datblygu briff gwaith a chynllun cyfathrebu ac ymgysylltu â budd-ddeiliad gyda chymuned Sipsiwn a Theithwyr, aelodau etholedig a budd-ddeiliad eraill. Byddai cam dau'n canolbwyntio ar fonitro'r broses oedd yn cael ei defnyddio a'r cynnydd oedd yn cael ei wneud i sicrhau y cydymffurfir â chanllawiau statudol a disgwyliadau aelodau etholedig. Yn ystod ei gyfarfodydd cychwynnol, roedd y Grŵp Tasg a Gorffen wedi adolygu rhestr o ffynonellau posib o ddata fel roedd methodoleg LIC yn ei nodi, ac wedi dod o hyd i ambell opsiwn i gasglu data ansoddol ychwanegol a allai gyfrannu at ddeall anghenion h.y. patrymau teithio. Byddai hyn yn cynnwys adolygu unrhyw wybodaeth ychwanegol a fyddai'n cael ei chasglu trwy ymweliadau lles â gwerysilloedd diawdurdod a gwahoddiad i aelodau etholedig a chynghorau dinas, tref a chymuned ddarparu unrhyw wybodaeth leol trwy arolwg ar-lein. Byddai Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr yn cael ei gynnal gan Opinion Research Services (ORS), yr ymgynghorwyr allanol a benodwyd i gynnal Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir Ddinbych.

Er bod gwasanaethau ORS wedi'u caffael ar y cyd, fe fyddent yn cynnal dau Asesiad cyfan gwbl ar wahân ac yn llunio dau adroddiad ar wahân.

Roedd y Grŵp Tasg a Gorffen wedi cytuno, yn ychwanegol at y gofynion sylfaenol a oedd ym methodoleg LIC mewn perthynas â hyrwyddo'r Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr, y dylid dilyn camau ychwanegol yn Sir Ddinbych i geisio hyrwyddo'r Asesiad. Roedd y rhain wedi'u rhestru ar dudalen 6 Briff Gwaith Drafft yr Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (Gorffennaf 2021) a oedd ynghlwm yn Atodiad 2. Roedd y gweithgareddau arfaethedig yn cynnwys gofyn i Aelodau Etholedig osod posteri mewn lleoliadau cymunedol allweddol yn eu wardiau i annog pobl i gymryd rhan, hyrwyddo'r Asesiad a cheisio cael pobl i ymgysylltu â'r Cyngor ynglŷn â'u hanghenion, arolygon ar-lein i gynghorwyr sir a chynghorau dinas, tref a chymuned a gweithio gyda budd-ddeiliaid eraill fel ymwelwyr iechyd a'r Heddlu i hyrwyddo'r Asesiad gyda theuluoedd y gallent hwy fod wedi bod mewn cysylltiad â nhw. Roedd rhagor o wybodaeth fanwl am y gweithgareddau arfaethedig i'w gweld yn y Cynllun Ymgysylltu a Chyfathrebu â Budd-ddeiliaid (Atodiad 3). Ar ben hyn, roedd y Grŵp Tasg a Gorffen wedi cyfarfod â chynrychiolwyr o gwmni ymgynghorol ORS ac roeddent o ganlyniad wedi'u sicrhau eu bod yn gymwys a phrofiadol yn y math hwn o waith.

Pe bai'r Pwyllgor yn cytuno i gymeradwyo cychwyn yr Asesiad, byddai'r Grŵp Tasg a Gorffen yn cyfarfod eto ym mis Medi a Hydref i fonitro cynnydd y gwaith a sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion statudol a rhai ychwanegol. Byddai'r Grŵp Tasg a Gorffen yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor â'i sylwadau am y broses hon. Byddai drafft o'r Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr yn cael ei gyflwyno gan aelodau'r Bwrdd Prosiect i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau i'w archwilio cyn ceisio cymeradwyaeth derfynol gan y Cabinet. Pe bai'r Cabinet yn ei gymeradwyo, byddai'r Asesiad wedyn yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo.

Pwysleisiodd y Cynghorydd Mellor fod y Grŵp Tasg a Gorffen eisiau sicrhau bod y Pwyllgor yn fodlon â'r holl gamau a gymerwyd hyd yma ynghlwm â phroses yr Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr. Roedd hefyd eisiau gofyn am gefnogaeth y Pwyllgor i'r broses a ddilynwyd, y briff gwaith a'r Cynllun Ymgysylltu a Chyfathrebu â Budd-ddeiliaid er mwyn gallu cychwyn yr asesiad ei hun. Wrth wneud hynny, pwysleisiodd nad oedd y Grŵp Tasg a Gorffen yn chwilio am safleoedd preswyl a/na safleoedd teithiol i Sipsiwn a Theithwyr. Ei gylch gwaith oedd sicrhau bod yr asesiad llety'n cael ei gynnal yn unol â chanllawiau LIC gan hefyd ystyried unrhyw ystyriaethau lleol, a hynny'n unig. Byddai canlyniadau'r Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr yn pennu a fyddai angen i'r Cyngor ddynodi safleoedd posib yn y dyfodol.

Ategodd y Cynghorydd Peter Scott, Is-gadeirydd y Grŵp Tasg a Gorffen, sylwadau'r Cynghorydd Mellor ar y gwaith diwyd oedd wedi'i wneud hyd yma gan y Grŵp, a oedd wedi cynnal sawl cyfarfod mewn cyfnod byr.

Gan ymateb i gwestiynau'r aelodau, cadarnhaodd Cadeirydd y Grŵp Tasg a Gorffen, Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd a'r Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai:

- trwy gael ORS i fod yn ymgynghorwyr ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, roedd y ddau awdurdod yn ceisio lleihau'r risg o gyfrif pennau

ddwywaith a dyblygu gwaith mewn rhai agweddau ohono. Fodd bynnag, byddai ORS yn cynnal ac yn llunio dau Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr cyfan gwbl ar wahân.

- yn ogystal â chydweithio'n agos â CBS Conwy i benodi ymgynghorwyr, roedd y Grŵp Tasg a Gorffen hefyd wedi gofyn i swyddogion drafod yn agos â holl awdurdodau eraill Gogledd Cymru mewn perthynas â datblygu eu Hasesiadau nhw.

Canmolodd aelodau'r Pwyllgor y Grŵp Tasg a Gorffen am ei waith hyd yma gan ddiolch iddo am yr adroddiad llawn gwybodaeth a gyflwynwyd iddynt. Teimlid y dylai'r dull o fynd ati i gynllunio a chynnal yr Asesiad newydd olygu bod yr Awdurdod mewn llawer gwell lle os a phan oedd angen iddo edrych ar safleoedd posib ar gyfer safleoedd preswyl a/neu rai teithiol i Sipsiwn a Theithwyr yn y sir yn y dyfodol.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Grŵp Tasg a Gorffen a'i Gadeirydd am adroddiad cynhwysfawr iawn. Pwysleisiodd mor bwysig oedd cynnwys pob budd-ddeiliad trwy gydol gwaith datblygu'r Asesiad gan hefyd sicrhau bod lefelau priodol o gyfathrebu yn fewnol ac yn allanol ar yr un pryd ynglŷn â'r Asesiad a'i ddiben.

Diolchodd Cadeirydd y Pwyllgor i'r Grŵp Tasg a Gorffen am ei waith a chynrychiolwyr Grwpiau Ardal yr Aelodau ar y Grŵp Tasg a Gorffen a oedd hefyd yn aelodau o bwyllgorau craffu'r Cyngor am adrodd yn ôl i'w pwyllgorau'n rheolaidd ynglŷn â gwaith y Grŵp Tasg a Gorffen.

Yn ystod y drafodaeth, cyfeiriodd nifer o aelodau at wersyll diawdurdod diweddar ar dir cyhoeddus ger Parêd y Dwyrain, y Rhyl, a'r teimlad bod y Cyngor a Heddlu Gogledd Cymru wedi bod yn araf cyn cymryd camau gorfodi yn erbyn y rhai a oedd yn gyfrifol. Dywedodd y swyddogion bod cymhlethdodau cyfreithiol wedi bod mewn perthynas â'r mater hwn, ond fe wnaethant gadarnhau bod yr holl awdurdodau cyhoeddus perthnasol yn cydweithio i geisio datrys y mater. Pwysleisiwyd nad oedd materion yn ymwneud â gwerylloedd diawdurdod yn rhan o gylch gwaith y Grŵp Tasg a Gorffen a bod gweithdrefn ddrafft ac atebion i ddelio â gwerylloedd o'r fath yn y dyfodol wedi cael eu cymeradwyo gan y Pwyllgorau Craffu yn ddiweddar ac roeddent wrthi'n cael eu gweithredu.

Penderfynwyd: bod y Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried y wybodaeth a oedd yn adroddiad y Grŵp Tasg a Gorffen ac a roddwyd yn ystod y drafodaeth, yn amodol ar y sylwadau a nodwyd uchod yn –

- (i) cymeradwyo Briff Gwaith yr Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (Atodiad 2 i'r adroddiad);***
- (ii) cymeradwyo'r Cynllun Ymgysylltu a Chyfathrebu â Budd-ddeiliaid (Atodiad 3 i'r adroddiad);***
- (iii) cadarnhau ei gefnogaeth i'r dull o fynd ati i gyflawni Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Sir Ddinbych fel un cadarn ac un oedd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru; a***
- (iv) cymeradwyo cychwyn yr asesiad.***

Daeth y cyfarfod i ben am 10.30am.